# Un Seren

Pe bawn i’n gallu dweud wrth dad-cu
Fod ‘na ddynion wedi cerdded ar y lleuad
Fyddai’n anodd ganddo gredu
Fod dyn wedi medru mynd mor bell, mor bell

Ond dyna ni, mae’n rhyfedd o fyd

A phe bawn i’n gallu dweud wrth mam-gu
Fod ‘na sêr, heibio’r sêr, yn ôl ein gwyddonwyr ni
Mi fyddai’n anodd ganddi gredu
Fod dyn wedi medru gweld mor bell, mor bell

Ond dyna ni, mae’n rhyfedd o fyd

Ond o, nid fel ‘na fu hi
Na, roedd pethau yn well bryd hynny
Ond efallai mai fi sy’n hen ffasiwn

Un seren, un seren
Dim ond un seren oedd yn bwysig i ni

Dim ond un seren
Fry uwch Bethlem
Dim ond un seren

**Oedd yn bwysig i ni**

**Mae'r Nadolig yn ddrud, mae'n drafferth**
**Mae'r Nadolig, mae'n em, mae'n brydferth**
**Ac mae'n anodd gen i gredu fod dyn wedi medru anghofio yn llwyr**
**Brydferthwch, rhyfeddod yr ŵyl**

**Achos o, nid fel 'na fu hi**
**Na, roedd pethau yn well bryd hynny**
**Ond efallai mai fi sy'n hen ffasiwn**

**Dim ond un seren**
**Un seren**
**Dim ond un seren**
**Oedd yn bwysig i ni**
**Dim ond un seren**
**Fry uwch Bethlem**
**Dim ond un seren**
**A gymrodd ei bryd**

**Dim ond un seren**
**Un seren**
**Dim ond un seren**
**Oedd yn bwysig i ni**

**Dim ond un seren**
**Fry uwch Bethlem**
**Dim ond un seren**
**Oedd yn bwysig i ni**